ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

See the English version below

ARHOLIADAU 2020 – BLWYDDYN 10

28/03/20

Annwyl Ddisgyblion a Rieni / Warcheidwad,

Mae'n bosib eich bod wedi gweld ar wefannau CBAC a Cymwysterau Cymru bod yna **gynlluniau mwy pendant,** ar gyfer graddio unedau TGAU eleni. Bydd cyfarwyddiadau mwy pendant yn ein cyrraedd yn ystod mis Ebrill a byddwn yn eich diweddaru yn syth o'r datblygiadau yma. Dyma'r manylion diweddaraf sydd wedi ein cyrraedd o CBAC a Cymwysterau Cymru ar gyfer disgybion **Blwyddyn 10**:

Yn achos dysgwyr ym Mlwyddyn 10 oedd i fod i sefyll unedau i gwblhau eu cymhwyster TGAU yr haf hwn, byddant yn derbyn gradd ar sail yr un broses a amlinellwyd ar gyfer dysgwyr TGAU Blwyddyn 11 (gweler llythyr disgyblion bl11+13 am fanylion pellach).

Yn achos dysgwyr ym Mlwyddyn 10 oedd i fod i sefyll unedau'n unig, yn hytrach na chwblhau cymhwyster TGAU cyflawn yr haf hwn, ni chyhoeddir canlyniadau uned gennym. Bydd dau ddewis ar gael i'r dysgwyr hynny sef, naill ai:

1. ***sefyll yr unedau Blwyddyn 11 yn haf 2021, a chael cyfrifo eu gradd TGAU gyffredinol derfynol ar sail eu perfformiad yn yr unedau hynny***
   neu
2. ***sefyll yr unedau Blwyddyn 10 yn haf 2021, ynghyd â'u hunedau Blwyddyn 11.***

Os bydd dysgwyr yn penderfynu mynd am yr ail ddewis (opsiwn 2), byddwn hefyd yn ystyried y radd a fyddai wedi'i dyfarnu iddynt pe byddent wedi dewis opsiwn 1. Y radd derfynol a dderbynnir ganddynt fydd y radd orau i'w dyfarnu o'r naill opsiwn a'r llall.

Rydym wedi rhoi'r cyngor yn barod i bob disgybl ym ml.10 i barhau i gwblhau'r gwaith angenrheidiol er mwyn gorffen eich cyrsiau. Mae hyn yn cynnwys cwblhau unrhyw waith cwrs sydd angen eu gwneud, gan gynnwys unrhyw waith ar gyfer y Tystysgrif Her Sgiliau, ac hefyd i gwblhau unrhyw cyn-bapurau rydych wedi'u derbyn. Mae'r datganiad uchod yn cyd-fynd gyda'r cyngor yma, gan fydd yn help i'r ysgol i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i allu llunio asesiadau athro teg o waith cyflawn pob disgybl ym Mryn Tawe.

Cofiwch, pan ydych wedi cwblhau yr holl waith yma, rydym yn disgwyl i chi fynd ati i baratoi ar gyfer bywyd ym mlwyddyn 11eg drwy ddarllen o gwmpas ac ymchwilio y testunau rydych yn mynd i'w hastudio. Hyderwn y bydd ein disgyblion mwyaf cydwybodol yn ymgymryd â'r heriau dysgu annibynnol yma gyda brwdfrydedd a bydd yn baratoad gwych ar gyfer y cam nesaf yn eich dysgu.

Mae eich athrawon o hyd ar gael i drafod unrhyw agweddau o'r tasgau yma drwy naill ai lwyfannau 'Teams', neu ddosbarthiadau Hwb. Maent hefyd ar gael wrth gwrs i drafod drwy e-bost – plis cysylltwch â hwy.

Yn ogystal, rwyf i ar gael i drafod, naill ai ar y ffôn yn yr ysgol neu ar fy nghyfeiriad e-bost: DaviesS456@hwbcymru.net – cysylltwch os oes angen.

Ga i ymbil arnoch i ddilyn y cyngor diweddaraf gan y GIG (https://bit.ly/C-19GIG) a ICC (http://bit.ly/icc-coronavirus) i wrthsefyll feirws C-19 ar gyfer eich iechyd chi a'ch teuloedd – byddwch yn gyfrifol iawn yn y cyfnod ansicr a phryderus yma.

Cadwch yn ddiogel a chofion cynnes,

Simon Davies

EXAMINATIONS 2020 – YEAR 10

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

28/03/20

Dear parents / guardians,

You might have seen recent communications from WJEC and Qualifications Wales regarding plans for assessing and grading this year's GCSE and A level qualifications. More specific guidance will be issued during April, and once received, we will issue updated information for all stakeholders.

This is the latest update we have received from WJEC and Qualifications Wales:

YEAR 10
For learners in Year 10 who were due to sit units to complete their GCSE qualification this summer, they will be issued a grade following the same process we outlined for Year 11 GCSE learners (please see year 11 and 13 letter for further details).
For learners in Year 10 who were due to sit units only, rather than completing an entire GCSE qualification this summer, we will not be issuing unit results. Those learners will be provided with two options which are either to:

1. ***sit the Year 11 units in summer 2021, and their final overall GCSE grade will be calculated on the basis of their performance on those units***
   or
2. ***sit the Year 10 units in summer 2021, along with their Year 11 units.***

If learners decide to take option 2 next year, we will also consider the grade they would have been awarded if they took option 1. Their final grade will be the best grade awarded from either option.

We have already advised all learners in year 10 that they should continue to complete any relevant tasks to complete their courses. This includes the completion of any relevant coursework or projects, including any remaining tasks for the Skills Challenge Certificate, and to respond to any past examination papers assigned by teachers. The statement above corresponds with this advice, as such evidence will support the school in collating information and evidence which will help inform the teacher assessment of learners here at Bryn Tawe.

Remember, if learners have completed all relevant tasks noted above, we would expect learners to begin preparations for year 11 by researching topics they will study as part of the next academic year. We fully aniticpate that our learners will complete these independent learning tasks with enthusiasm as they prepare for the next steps in their studies.

Remember, all teachers are available should you wish to discuss any aspects of theses tasks, either via the Microsoft Teams platform, Hwb classes or the SMHW app and website. All teachers are also contactable through their e-mail addresses. Please do not hesitate to get in touch.

In addition to this, I am more than happy to discuss any queries, either via the school's telephone number or via e-mail: DaviesS456@hwbcymru.net – please do not hesitate to contact me.

Can I once again please ask all of you to follow the latest advice issued in relation to Covid-19 by the NHS (https://bit.ly/C-19GIG) and Public Health Wales. Once again thanks for all the support and we wish you and your family the very best during these difficult times. Please stay safe.

Best wishes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales